

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	10 CHWEFROR 2022
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2021/2022.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2021/22 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 31 Ionawr 2022 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	5
Gwaith Maes ar y gweill	14
Disgwyl Adolygiad	1
Adroddiad Drafft	3
Wedi ei gau	1
Adroddiad Terfynol	18
Cyfanswm	<u>42</u>
Canslwyd	14

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2022. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

- 2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Ionawr 2022 oedd **45.24%** - allan o'r **42** archwiliad unigol yng nghynllun 2021/22 roedd **19** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

- 3.1 Mae cyfanswm o 225 diwrnod wedi ei gynnwys yn y Cynllun Blynyddol 2021/22 ar gyfer cynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu ynghyd â chynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-dal i ddelio gyda taliadau Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a hefyd Taliadau Cymorth Hunan-ynysu yn sgil y cynnydd mewn achosion Covid-19 yng Ngwynedd. Mae'r ddau wasanaeth hwn yn flaenoriaeth 1.
- 3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, 'roedd yn anochel na ellid cynnal rhai archwiliadau serch bod adnodd ychwanegol cyfwerth â 73.5 diwrnod wedi ei ychwanegu o ganlyniad i ddiwedd secondiad un o'r Uwch Archwilwyr. Penderfynwyd i addasu neu ganslo'r archwiliadau canlynol a throsglwyddo'r dyddiau ar gyfer ymgymryd â gwaith y ddau wasanaeth a nodir ym mharagraff 3.1 uchod.

Archwiliad	Dyddiau	Addasiad/Canslo
Trefniadau Diogelu – Sefydliadau	4	Canslo
Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau	5	Canslo
Grant Trafnidiaeth Leol	12	Canslo
Cynllun Rheoli Traethau	10	Canslo
Cynllun Llanbedr	12	Canslo
Asesiadau Statudol (AMHP)	20	Canslo
Cynnal Tiroedd	15	Canslo
Manddaliadau	12	Canslo
Mesurau Diogelu Rhyddid	10	Canslo
Asesiadau Risg – Cynnal Priffyrdd	15	Canslo
Newid Hinsawdd	15	Canslo
Grant Datblygu Disgyblion	10	Canslo
Trefniadau Busnes yn Sgil Covid-19	15	Canslo

- 3.3 Mae archwiliad o gyfrifon Amgueddfa Lloyd George wedi ei ychwanegu at y Cynllun – cyfanswm o 3 diwrnod.
- 3.4 Mae'r dyddiau a glustnodwyd ar gyfer archwiliad Cwmni Cynnal wedi eu trosglwyddo i gynnal archwiliad ar Gronfeydd Answyddogol Ysgolion – cyfanswm o 25 diwrnod.
- 3.5 Yn draddodiadol, byddai wedi bod yn arferol i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf drwy adlewyrchu ar risgiau a sialensiau y flwyddyn gyfredol, ond eto eleni, defnydd cyfyngedig sydd o wneud hynny wrth gynllunio ar gyfer 2022/23, ac felly bydd yn anorfod i edrych ymlaen drwy ystyried y newidiadau a ragwelir dros y 12 mis nesaf.

3.6 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach fyth o ystyried effaith sylweddol a chyflym pandemig Covid-19 ar y Cyngor. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a caiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus.

3.5 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg yn y cyfnod ansefydlog hwn.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2021/22, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL						
1-CORFF-09/2022/001	Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	15.00	0.00	15.00	2.88	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-11/2022/001	Datganiadau Cyflogaeth	8.00	0.00	8.00	9.73	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-15/2022/001	Newid Hinsawdd	15.00	0.00	15.00	0.00	Wedi ei ganslo
1-CORFF-19/2022/001	Trefniadau Diogelu	15.00	0.00	15.00	3.47	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-19/2022/002	Trefniadau Diogelu- Sefydliadau	4.00	0.00	4.00		Wedi ei ganslo
1-CORFF-20/2022/001	Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19	15.00	0.00	15.00		Wedi ei ganslo
1-CORFF-20/2022/002	Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd	20.00	0.00	20.00	25.39	Adroddiad Drafft
1-CORFF-20/2022/003	Gwasanaeth Profi Orlhain a Diogelu	0.00	125.00	125.00	97.69	Wedi ei gau
1-CPGV-01/2022/001	Brexit	15.00	0.00	15.00	9.50	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2022/002	Côd Rheoli Ariannol	15.00	0.00	15.00	12.78	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2022/003	Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021	10.00	0.00	10.00	12.30	Adroddiad Terfynol
1-CPGV-01/2022/004	Trefn Gwynion	10.00	0.00	10.00	11.86	Adroddiad Drafft
1-CPGV-01/2022/005	Dynodiadau Iaith	12.00	0.00	12.00	4.18	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-02/2022/001	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	40.00	0.00	40.00	32.49	Gwaith Maes ar y gweill
2-ADN-CGC-DPA/2022	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	5.00	0.00	5.00		Wedi ei ganslo
AE-TAL-06/2022001	Defnydd o Gardiau Pryniant	25.00	0.00	25.00	16.59	Adroddiad Drafft
ADDYSG						
Adnoddau						
4-DAT-X-ADD/2022/001	Grant Datblygu Disgyblion	10.00	0.00	10.00		Wedi ei ganslo
4-DAT-X-ADD/2022/002	Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	15.00	0.00	15.00	9.16	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2022/003	Grant Addysg Ôl-16	3.00	0.00	3.00	0.55	Adroddiad Terfynol
EADDA02/2022/001	Cwmni Cynnal - Gwasanaethau i Ysgolion	25.00	-25.00	0.00		Wedi ei ganslo
EADDA29/2022/001	Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae	20.00	0.00	20.00	19.31	Adroddiad Terfynol
Ysgolion						
EADDA32/2022/001	Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	25.00	0.00	25.00	3.61	Gwaith Maes ar y gweill

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
EADDA35/2022/001	Ysgolion Cyffredinol	5.00	0.00	5.00	0.14	Wedi ei gynllunio
AMGYLCHEDD						
Gwarchod y Cyhoedd						
2-ADN-GYC/2022/001	Hylendid Bwyd	15.00	0.00	15.00	2.85	Gwaith Maes ar y gweill
Trafnidiaeth a Gofal Stryd						
3-RHE1-X-GRANT/2022	Grant Trafnidiaeth Lleol	12.00	0.00	12.00		Wedi ei ganslo
Uned Cefn Gwlad a Mynediad						
3-AMG-GWLAD/2022/001	Grantiau Cefn Gwlad	12.00	0.00	12.00	3.69	Gwaith Maes ar y gweill
CYLLID						
Ar draws yr adran						
AW-TG-12/2022/001	Systemau a Diogelwch TG - Data Adequacy	15.00	0.00	15.00	14.11	Adroddiad Terfynol
AW-TG-12/2022/002	Trefniadau Adfer Trychineb	15.00	0.00	15.00	6.99	Gwaith Maes ar y gweill
Cyfrifeg						
AN-ACY-02/2022/001	Rheoli Prosiect - Uwchraddio E-Financials	12.00	0.00	12.00	4.00	Gwaith Maes ar y gweill
AN-ACY-08/2022/001	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2020-2021	4.00	0.00	4.00	6.62	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2022/002	Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2020-2021	4.00	0.00	4.00	4.27	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2022/003	Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-2021	10.00	0.00	10.00	4.95	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau						
AL-CYF-01/2022/001	Newid Data Sefydlog	12.00	0.00	12.00	10.00	Disgwyl Adolygiad
AL-CYF-18/2022/001	Taliadau i Weithwyr Gofal (Rhan 2)	10.00	0.00	10.00	3.81	Adroddiad Terfynol
AL-CYF-18/2022/002	Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal	15.00	0.00	15.00	3.55	Gwaith Maes ar y gweill
AP-PEN-11/2022/001	Taleion Newydd	12.00	0.00	12.00	5.57	Adroddiad Terfynol
Refeniw						
AB-BD-01/2022/001	Taliadau Hunanynysu - Tanwydd Gaeaf	0.00	100.00	100.00	0.00	Gwaith Maes ar y gweill
AC-TR-01/2022/001	Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru (2021-22)	25.00	0.00	25.00	16.00	Adroddiad Terfynol
ECONOMI A CHYMUNED						
Adfywio Cymunedol						
EADDZ-01/2022/001	Cronfa Degwm	3.00	0.00	3.00	3.05	Adroddiad Terfynol
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau						

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
EDIW-MU-03/2022/001	Storiel	6.00	0.00	6.00	0.34	Gwaith Maes ar y gweill
EDIW-OR-01/2022/001	Amgueddfa Lloyd George	0.00	3.00	3.00	0.00	Adroddiad Terfynol
Cefnogi Busnes						
DDAT-AD-04/2022/001	Grant Dewisol Cyfyngiadau Clo	15.00	0.00	15.00	18.04	Adroddiad Terfynol
Morwrol a Pharciau Gwledig						
EHAMT-01/2022/001	Cynllun Rheoli Traethau	10.00	0.00	10.00		Wedi ei ganslo
Strategaeth a Datblygu						
DDAT-AD-05/2022/001	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	20.00	0.00	20.00	0.00	Gwaith Maes ar y gweill
DDAT-CON-01/2022/001	Cynllun Llanbedr	12.00	0.00	12.00		Wedi ei ganslo
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT						
Ar draws yr adran						
GCC-02/2022/001	Mesurau Diogelu Rhyddid	10.00	0.00	10.00		Wedi ei ganslo
Oedolion						
GGWAS-H02/2022/001	Dyledion	30.00	0.00	30.00	0.00	Wedi ei gynllunio
Preswyl a Dydd						
GDAPR-H01/2022/001	Diogelu Asedau Preswylwyr	15.00	0.00	15.00	6.38	Wedi ei gynllunio
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD						
Plant a Theuluoedd						
GGWAS-P03/2022/001	Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant	12.00	0.00	12.00	10.55	Gwaith Maes ar y gweill
GGWAS-P06/2022/001	Asesiadau Statudol (AMHP)	20.00	0.00	20.00		Wedi ei ganslo
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL						
Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol						
PBW-02/2022/001	Cynnal Tiroedd	15.00	0.00	15.00		Wedi ei ganslo
PZ01/2022/001	Asesiadau Risg - Cynnal Priffyrdd	15.00	0.00	15.00		Wedi ei ganslo
TAI AC EIDDO						
Digartrefedd a Tai Cefnogol						
GDAPR-SP01/2022/001	Grant Cymorth Tai	10.00	0.00	10.00	9.22	Adroddiad Terfynol
Tir ac Eiddo'r Cyngor						
BA-EID-04/2022/001	Manddaliadau	12.00	0.00	12.00		Wedi ei ganslo

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
M-GMG-G02/2022/001	Trefniadau Glanhau	15.00	0.00	15.00	14.68	Adroddiad Terfynol
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD						
Ar draws yr adran						
PYMG-CON/2022/001	Trefniadau Rheoli Prosiectau	20.00	0.00	20.00	20.65	Adroddiad Terfynol